



**Academi Genedlaethol ar gyfer
Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for
Educational Leadership Wales**

Cofnodion / Nodiadau Gweithredu o Gyfarfod y Bwrdd 19 Gorffennaf 2024

Yn bresennol: Dr Sue Davies (SD) (Cadeirydd)
Tegwen Ellis (TE) (Prif Weithredwr)
Martin Price (MP)
Mike James (MJ)
Dr John Graystone (JG) (yn ymuno trwy MS Teams)
Dr Debbie Nash (DN)
Yr Athro Paul Marshall (PM)
Kirsty Payne (KP) (Pennaeth Gweithrediadau)
Dr Chris Lewis (CL) (Cyfarwyddwr)
Gaynor Ace (GA) (Ysgrifenyddiaeth)

Gwahoddedig: Gillian Gillet (GG) – Archwilio Cymru (yn ymuno trwy MS Teams)
David Richards – Uned Cyrff Cyhoeddus

1. Croeso, cadarnhau cofnodion a chymau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol

Agorodd SD y sesiwn a chroesawodd bawb i gyfarfod wyneb yn wyneb y Bwrdd heddiw. Cafwyd ymddiheuriadau gan Katie Phillips ac Yusuf Ibrahim.

Nid oedd unrhyw achos o wrthdaro buddiannau ac nid oedd unrhyw roddion i'w hadrodd.

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol fel cofnod cywir a gwir gyda chamdeipio yn yr adran ddiwethaf lle cyfeiriwyd at SD fel SP.

Cyfeiriodd SD at y Log Gweithredu o gyfarfod blaenorol y Bwrdd a nododd fod yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau bellach neu y byddent yn cael sylw yn nes ymlaen ar yr agenda.

2. Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau Dynol

Rhoddodd MP drosolwg o'r materion a drafodwyd yng nghyfarfod y pwyllgor y mis hwn. Nid oedd unrhyw bryderon AD penodol a bydd JG yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei sgysiau llesiant gyda staff yn ystod y cyfarfod heddiw.

Mae'r gyllideb ar y trywydd iawn gyda rhai mân newidiadau ac esboniodd KP y rhain yn llawn i'r pwyllgor. Roedd bil annisgwyl ar gyfer trethi busnes wedi dod i law mewn perthynas â threthi busnes yr hen swyddfeydd yn Abertawe - mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i dalu'r bil hwn a chytunodd eu swyddogion ar y denantiaeth.

Cyflwynwyd copi drafft o'r Datganiadau Ariannol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31/03/24 i'r pwyllgor. Mae angen copi diwygiedig o adroddiad y Cyfarwyddwyr. Roedd diweddariadau polisi wedi cael eu darparu gyda phapurau'r Bwrdd heddiw sy'n sicrhau bod y polisïau'n cydymffurfio ag arfer cyfredol. **Roedd y Bwrdd yn hapus i gytuno yn ffurfiol ar y gwelliannau polisi hyn.**

Cynhaliwyd trafodaeth ynglŷn â chylchdroi cadeiryddion pwyllgorau. Bydd hyn yn cael ei gynnwys yn yr agenda ar gyfer y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Tachwedd.

Diolchodd SD i MP am ei grynodedb a derbyniodd y Bwrdd adroddiad y pwyllgor. Dywedodd SD pa mor ddefnyddiol oedd hi iddi eistedd i mewn ar y ddau bwyllgor er mwyn cael trosolwg o'u gwaith craffu.

3. Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Rhoddodd MJ drosolwg o faterion a ystyriwyd yng nghyfarfod y pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y mis hwn. Roedd yr adroddiad blynyddol archwilio mewnol yn rhoi sicrwydd rhesymol y bernir ei fod yr anrhydedd mwyaf. Roedd cynnydd yn y canfyddiadau a'r argymhellion, ond wrth holi, rhoddodd yr archwilwyr sicrwydd i'r pwyllgor drwy farnu bod hyn yn sgil cynnydd mewn gweithgarwch a hefyd cwmpas gwahanol yn yr archwiliadau.

Cyflwynodd KP archwiliad dwfn trylwyr ac addysgiadol iawn ar gyllid a brofodd yn agoriad llygad i'r pwyllgor gan dynnu sylw at newidiadau cwmpas, cyfyngiadau a pholisïau dyled. Er gwaethaf derbyn cynnydd o dan chwyddiant yn gyffredinol, roedd gallu'r sefydliad i gyflawni mwy gyda llai wedi creu argraff ar y pwyllgor. Roedd y modd yr oedd KP a'r tîm yn rheoli'r gyllideb o fewn cyfyngiadau mor dynn hefyd wedi creu cryn argraff ar y pwyllgor.

Roedd amserlen o archwilio dwfn gan y pwyllgorau wedi'i chynnwys gyda'r papurau heddiw, ac **roedd y Bwrdd yn hapus i gymeradwyo hyn.**

Llongyfarchodd SD KP ar ei rheolaeth ofalus o'r gyllideb a diolchodd i'r pwyllgor am eu gwaith craffu rhagorol. Roedd y Bwrdd yn hapus i dderbyn adroddiad y pwyllgor.

4. Cyflwyniad Cynllun Archwilio Allanol – Archwilio Cymru

Roedd y Bwrdd yn falch o groesawu Gillian Gillet (GG) o Archwilio Cymru a ddarparodd drosolwg o Gynllun Archwilio 2024. Mae'r cynllun yn debyg i flynyddoedd

blaenorol ac yn nodi cyfrifoldebau a rhwymedigaethau statudol Archwilio Cymru fel archwilwyr allanol. Mae hefyd yn nodi risgiau archwilio ac yn egluro costau a dyraniadau gwaith.

Nodir gwariant disgwylidig ar dudalen 6 yr adroddiad ond nodwyd na ellir darparu sicrwydd llwyr ar hyn o bryd. Bydd y ffigurau hyn yn cael eu hadolygu pan fydd y cyfrifon wedi'u cwblhau. Mae meysydd craidd wedi'u nodi ac mae lefelau materoldeb is ac uchaf wedi'u gosod. Mae'r datganiadau ariannol yn seiliedig ar y risgiau a nodwyd. Tynnir sylw at un risg sylweddol ar dudalen 9 - rheolwyr yn diystyru rheolaethau.

Y bwriad yw ymgymryd â'r gwaith archwilio ym mis Awst/Medi gan gyflwyno adroddiad arno yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd. Cafodd y ffi archwilio o £5,900 ei chynnwys ar dudalen 11 – mae hyn yn adlewyrchu cynnydd o 6.4% oherwydd pwysau chwyddiant.

Holodd JG a oedd unrhyw wahaniaethau mawr o'i gymharu ag archwiliad y llynedd. Esboniodd GG fod newid bach wedi bod i'r fformat ond ni fu unrhyw newid yn y dull archwilio sy'n dal i ddilyn dull sy'n seiliedig ar risg.

Diolchodd SD ac MP i GG am drosolwg clir a chalonogol. Gadawodd GG y cyfarfod.

Soniodd KP am yr archwiliad rheolaethau ariannol allweddol sy'n cael ei gynnal yn fuan gan yr archwilwyr mewnol. Dylai hyn roi lefel ychwanegol o sicrwydd i'r Bwrdd. Gwnaeth PM sylw ar y cynnydd mewn ffioedd gan dynnu sylw at y ffaith bod y sefydliad yn derbyn cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru i ddefnyddio Archwilio Cymru. Er bod y ffi a ddyfynnir yn ymddangos yn rhesymol am y gwaith a wneir, ystyriwyd y byddai'n ddefnyddiol gwneud rhywfaint o gymariaethau â darparwyr archwilio eraill.

Roedd y Bwrdd yn hapus i gymeradwyo'r cynllun Archwilio.

5. Adroddiad y Prif Weithredwr yn erbyn y Cynllun Corfforaethol

Dechreuodd TE drwy ddiolch i'r Bwrdd am eu cefnogaeth a'u craffu dros y flwyddyn academaidd ddiwethaf. Mae hon wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus iawn i'r Academi Arweinyddiaeth a daeth TE â fideo i sylw'r Bwrdd ar y cyfryngau cymdeithasol yn dangos gweithgarwch dros dymor yr haf. Bwriad TE yw atgoffa LIC o faint sydd wedi'i gyflawni gyda gostyngiad yng nghostau'r gyllideb oherwydd chwyddiant. Os bydd cyllidebau'n parhau i godi islaw chwyddiant, gallai olygu efallai na fydd rhai agweddau o'r cylch gwaith yn cael eu cyflawni.

Diweddarodd TE y cyfarfod ar y sefyllfa bresennol gyda'r Adolygiad Haen Ganol. Yn ddiweddar, roedd TE a'r tîm wedi cyfarfod ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Lynne Neagle AS i drafod yr hyn yr oedd y sefydliad yn ei wneud i gefnogi

arweinwyr. Roedd yn ddiddorol nodi bod Ysgrifennydd y Cabinet wedi tynnu sylw at y ffaith nad oedd gwella ysgolion yng nghylch gwaith y sefydliad ar hyn o bryd.

Roedd yr adolygiad sy'n cael ei gynnal gan yr Athro Dylan Jones wedi nodi 3 maes ffocws: cydweithio rhwng ysgolion, cydweithio rhwng Awdurdodau Lleol a chydweithio ar lefel genedlaethol. Hyd yn hyn mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn canolbwyntio ar y lefel leol ac wedi gofyn i awdurdodau lleol ddrafftio cynllun gweithredu ar sut y maent yn bwriadu darparu gwasanaethau gwella ysgolion. Nodwyd bod rhai awdurdodau lleol, fel Abertawe, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro eisoes yn cydweithio. Gofynnwyd am ddrafftiau erbyn diwedd mis Gorffennaf a bydd cynlluniau gweithredu'n cael eu cyhoeddi erbyn canol mis Tachwedd.

Mae LIC wedi bod yn ystyried dysgu proffesiynol gorfodol ar gyfer staff ysgolion y bydd angen iddo fod ar waith o fis Ebrill 2025 ymlaen fel AGA, sefydlu a CPCP. Bydd angen ystyried yr iaith Gymraeg ac arweinyddiaeth yn ddiweddarach hefyd. Nid oes unrhyw benderfyniadau wedi'u cyhoeddi eto ynglŷn â'r ffordd ymlaen. Bu sôn am endid cenedlaethol newydd i gyflwyno dysgu proffesiynol.

Dyweddodd SD fod yr adolygiad wedi tynnu sylw at y diffyg cysondeb presennol felly gallai fod yn ddefnyddiol adeiladu ar y pwyntiau da. Mewn ymateb i ymholiad am risg gan MJ, adroddodd TE fod yr uwch dîm rheoli wedi trefnu 2 ddiwrnod i fwrdd yn yr haf pan fydd risgiau a mesurau lliniaru yn cael eu hystyried.

Roedd TE yn gadarnhaol ynghylch rôl yr Academi Arweinyddiaeth yn y dyfodol gan ddarparu enghreifftiau o'r prosiect Hyrwyddwyr Cyrhaeddiad a oedd wedi'i ymestyn yn ddiweddar i'r 2il Gyfnod Peilot. Roedd Ysgrifennydd y Cabinet wedi bod yn awyddus i'r sefydliad fwrw ymlaen â'r prosiect Trioedd Presenoldeb hefyd. Roedd MJ yn falch o nodi bod yr Academi Arweinyddiaeth yn cael ei hystyried yn alluogwr. Fodd bynnag, roedd MJ yn pryderu ynghylch sut y gallai un darparwr cenedlaethol barhau'n annibynnol a darparu cysondeb ym mhob ffordd. Roedd JG yn hoffi awgrym MJ y gallai Estyn ymgymryd â rhyw fath o rôl monitro ansawdd yn y broses hon. Gwnaeth JG sylw hefyd ar y system gyfeillio ar gyfer penaethiaid yn Awstralia a oedd yn llwyddiannus iawn. Mae athrawon yn Awstralia yn gallu cymryd gwyliau sabothol bob 7 mlynedd hefyd a allai helpu gyda recriwtio a chadw.

Diolchodd SD i TE am y trosolwg hwn a oedd wedi sbarduno trafodaethau defnyddiol iawn. Yna amlinellodd gynnydd drwy'r meysydd ffrwd gwaith fel a ganlyn:

Para 1.1 Sicrhau Ansawdd – Mae gan yr Adolygiad Haen Ganol oblygiadau i weithrediad presennol y system ardystio gan fod rhai rhanbarthau wedi oedi eu rhaglenni. Mae Mark Isherwood wedi rhannu pryderon gyda LIC ac wedi ystyried cwtogi'r cyfnod adolygu. Argymhellodd MJ atal neu gymeradwyo 'oedi' os na ellid cwblhau'r monitro. Bydd TE yn bwydo hyn yn ôl i MI.

Para 1.2 Arloesi – Mae ceisiadau ar gyfer y gronfa llwybr arloesi yn dal i gael eu derbyn felly mae'r system yn dal i fynd yn ei blaen. Mae rhywfaint o'r cyllid a

ddyranwyd i arloesi wedi cael ei symud i'r Ffederasiwn Cyswllt gan fod angen buddsoddiad ar eu prosiectau.

Para 1.3 Arweinyddiaeth System – Mae comisiwn Carfan 5 ar lesiant yn ei ddrafft terfynol a bydd yn cael ei gyfieithu a'i frandio i'w gyhoeddi dros yr haf. Mae comisiwn Cwricwlwm i Gymru yn mynd trwy ei adolygiad terfynol. Mae Carfan 5 wedi cael gwahoddiad bellach i ymuno â'r Ffederasiwn o fis Medi 2024.

Mae Mark Isherwood wedi cynnal sgysiau dysgu proffesiynol gyda Charfannau 5 a 6 a bydd yn cynhyrchu adroddiad yn nodi'r effaith ar ei hunan, y sefydliad a'r system i asesu effaith hydredol bod yn Gydymaith.

Mae recriwtio carfan 7 wedi'i gwblhau bellach. Cafodd 14 eu penodi ond mae un wedi gofyn am ohirio oherwydd ymrwymadau gwaith. Mae'r garfan newydd o safon uchel ac yn cynrychioli'r sector cyfan.

Para 1.4 Datblygu Arweinyddiaeth – Llawer o weithgaredd yma yn y chwarter diwethaf. Cyflwynwyd cynhadledd genedlaethol yn Llandudno drwy gyfrwng y Gymraeg, yn bennaf ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg. Cafodd y digwyddiad hwn adborth rhagorol a bwriedir cynnal digwyddiad tebyg y flwyddyn nesaf ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae nifer o ddigwyddiadau gwaith ieuenctid wedi cael eu cynnal i gyd-fynd ag Wythnos Gwaith Ieuenctid. Mae'r Athro Alma Harris yn arwain ar ddarn o waith dirnadaeth a ystyriwyd yn ddarn pwysig iawn o waith, sydd i'w gyhoeddi'r flwyddyn nesaf mewn partneriaeth â'r Ganolfan Arweinyddiaeth Ysgolion yn Iwerddon ac Education Scotland.

Para 2.1 Adnoddau – Mae Meleri Light wedi bod yn gweithio ar yr adnodd hunanwerthuso ar gyfer y Gymraeg. Mae ysgolion wedi bod yn nodi sut maen nhw'n datblygu'r Gymraeg yn eu lleoliad. Mae saith ysgol wedi bod yn treialu'r adnodd hwn, gan gyd-fynd â chomisiwn Carfan 2 a'i ariannu gan LIC. Bydd yr Academi Arweinyddiaeth yn gofyn am gyllid pellach i barhau â rôl Pennaeth y Gymraeg. Cychwynnodd MJ drafodaeth ar ysgolion Cymraeg o gymharu ag ysgolion dwyieithog ac awgrymodd PM y gellid edrych ar fodolau ariannu fel arian y British Council yn yr Ariannin. Cyfeiriodd TE at ganolfannau trochi yng Ngheredigion hefyd lle'r oedd ffoaduriaid wedi bod yn dysgu'r Gymraeg.

Paragraff 2.2 Mewnwelediad – Roedd papur ar ymarfer myfyriol wedi ei lansio yn Eisteddfod yr Urdd, lle'r oedd digwyddiad wedi'i gynnal mewn partneriaeth â'r CGA. Bydd y CGA yn cynhyrchu canllawiau i fynd gyda'r darn o fewnwelediad. Roedd cynhadledd ddiweddar ar bresenoldeb wedi'i chynnal mewn modd proffesiynol iawn.

Mae Carfan 6 wedi gorffen eu profiad dysgu erbyn hyn ac yn symud i'w hail flwyddyn i ganolbwyntio ar eu gwaith comisiwn. Maent wedi'u rhannu'n ddau grŵp ar gyfer comisiynau: un yn edrych ar hunanwerthuso ar gyfer gwella a'r llall yn edrych ar arwain sefydliad gwrth-hiliol.

Para 2.3 Llesiant – Mae'r comisiwn drafft ar lesiant wedi cael derbyniad da iawn gan LIC. Mae'r gweithgor llesiant wedi cael ei ddiddymu ac mae grŵp cynghori llesiant wedi'i ffurfio gyda'r cyfarfod cyntaf i'w gynnal ym mis Hydref. Mewn ymateb i ymholiad gan DN, cadarnhaodd TE fod y grŵp cynghori'n cynnwys swyddogion lefel

uchel o Lywodraeth Cymru ac aelodau strategol y Bwrdd Iechyd, CGA ac Estyn. Mae dau Gydymaith wedi cael gwahoddiad i eistedd ar y grŵp hwn hefyd.

Aeth TE, Nia Miles a Chydymaith i gynhadledd Belmas gan draddodi 2 gyflwyniad ar lesiant a recriwtio a chadw a chawsant groeso gwresog.

Para 2.4 Cynllunio Strategol y Gweithlu – bydd Dr Chris Lewis yn rhoi cyflwyniad ar recriwtio a chadw o dan Eitem 7 yr agenda. Mae hyn eisoes wedi'i rannu gyda LIC. Mewn ymateb i awgrym gan JG i ystyried penodi pobl nad ydynt yn athrawon i rolau uwch, atebodd TE fod hyn wedi'i awgrymu ond y byddai'n annhebygol o gael cymeradwyaeth undeb.

Para 3.1 Llywodraethu Effeithiol – Roedd pob un yn ymwybodol o bryderon ynghylch adnewyddu'r Bwrdd y tro nesaf lle byddai 4 aelod profiadol o'r Bwrdd yn gadael ar yr un pryd. Byddai hyn yn cael ei drafod gyda'r Uned Cyrff Cyhoeddus yn ddiweddarach yn y cyfarfod hwn.

Mae KP wedi drafftio cynllun cydraddoldeb strategol y mae TE yn ei adolygu ar hyn o bryd. Mae dau ddiwrnod i ffwrdd wedi'u cynllunio lle bydd yr uwch dîm rheoli'n gwerthuso'r cynllun corfforaethol. Mae KP yn awyddus i symud i ffwrdd o adrodd ar ffrydiau gwaith a symud i ystyried amcanion strategol. Felly, bydd mecanwaith adrodd mwy soffistigedig yn cael ei ystyried.

Para 3.2 Swyddogaeth Weithredol – Mae KP wedi cynnal arolwg staff ar ddiwylliant, ffyrdd o weithio a boddhad swydd. Bydd adroddiad manwl llawn yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd. Roedd KP yn falch o nodi cyfradd ymateb 100% ar gyfer yr arolwg hwn. Bydd rhai mân awgrymiadau ar gyfer gwella yn cael eu hystyried dros yr haf gan gynnwys cynnig mwy trefnus ar gyfer dysgu proffesiynol. Atgoffodd PM bawb fod angen i'r arolwg hwn fod yn ddienw er mwyn cydymffurfio â rheolau GDPR. Gan fod maint y sampl mor fach, efallai y bydd angen dileu rhai ymatebion felly i sicrhau cyfrinachedd.

Bydd y sefydliad yn gweithio tuag at adnewyddu ail-achredu Buddsoddwyr mewn Lles ac achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl fel menter ar y cyd.

Para 3.3 Cyfathrebu a Marchnata – Mae archwiliad hygyrchedd llawn wedi'i gynnal ar y wefan erbyn hyn ac mae adroddiad a chynllun gweithredu wedi'u llunio. Cydnabuwyd bod y wefan braidd yn anniben ac yn orlawn bellach felly bydd ymarfer symleiddio'n cael ei gynnal yn fuan.

Braf oedd nodi bod cyfeiriadau at y brand ac ymgysylltu wedi cynyddu a oedd yn cael eu hadlewyrchu yn adroddiad Charlotte. Yn ddiweddar mae podlediad ardderchog wedi ei recordio gyda Meleri Light yn siarad ag ymarferwyr o ysgol cyfrwng Cymraeg gyda'r nod o ddenu pobl i symud yn ôl i Gymru i addysgu.

Para 3.4 Rhanddeiliaid a Gwaith Partneriaeth – siaradodd TE am ei thaith lwyddiannus ddiweddar i Awstralia, ac mae adroddiad ynghlwm wrth y papurau hyn. Roedd TE yn falch o adrodd ei bod wedi gwneud dau gyswllt newydd a fyddai'n ddefnyddiol iawn wrth graffu ar waith yr Academi.

Roedd cyfarfod rhanddeiliaid yr wythnos hon wedi'i ganslo ond byddai'n cael ei ad-drefnu. Y bwriad yw recriwtio rhanddeiliaid ychwanegol i'r grŵp hwn gan greu rhestr fer ym mis Medi. Mae'n ymddangos bod y rhaglen dreigl o recriwtio ac adnewyddu rhanddeiliaid yn gweithio'n dda.

Mewn ymateb i ymholiad gan JG ynghylch y risg ychwanegol o ad-drefnu'r cabinet, atebodd TE ei fod yn fusnes fel arfer ar hyn o bryd i bob Gweinidog. Mae Lynne Neagle AS yn parhau i fod yn Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ac Eluned Morgan AS sydd wedi cymryd cyfrifoldeb Jeremy Miles AS dros y Gymraeg.

Diolchodd SD i TE am adroddiad cynhwysfawr iawn fel erioed yr oedd y Bwrdd yn hapus i'w dderbyn. Diolchodd TE i'r Bwrdd am gytuno ar gymorth ariannol ar gyfer ei doethuriaeth addysgol ac roedd yn falch o adrodd ei bod wedi cyflwyno ei thraethawd ymchwil erbyn hyn. Roedd y Bwrdd yn dymuno'n dda iddi gyda'r cam olaf hwn.

6. Cyflwyniad gan yr Uned Cyrff Cyhoeddus

Roedd SD yn falch o groesawu David Richards (DR), Cyfarwyddwr Priodoldeb a Moeseg yn yr Uned Cyrff Cyhoeddus. Rhoddodd DR drosolwg o'i waith ac amlygodd broblemau cyfredol yn yr Uned Cyrff Cyhoeddus. Roedd DR wedi bod yn ei rôl bresennol ers 10 mlynedd ac wedi rhoi cyngor ar y cod gweinidogol. Cadarnhaodd mai 'busnes fel arfer' oedd y drefn yn y Senedd ac y byddai pethau'n parhau fel arfer nes i'r Prif Weinidog newydd gael ei benodi.

Siaradodd DR yn gyffredinol am faterion yn ymwneud â moeseg, gonestrwydd a gwybodaeth a ryddhawyd na ddylai fod wedi'i rhyddhau. Pwysleisiodd fod disgwyl i weision cyhoeddus gyflawni eu cylch gwaith mewn ffordd oedd yn gydnaws â gwerthoedd gwasanaeth cyhoeddus. Cyfeiriodd at egwyddorion Nolan sef: anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth. Ni ddylai fod unrhyw fudd preifat o arian cyhoeddus. Soniodd DR am sut y dylai arweinwyr yng Nghymru osod esiampl dda. Rhybuddiodd am beryglon posib y cyfryngau cymdeithasol a dywedodd y dylid eu defnyddio'n ofalus.

Cymhwysodd DR yr egwyddorion hyn at redeg Byrddau'n llyfn a'u heffeithiolrwydd, gan annog ymddygiad parchus a rhoi amser i wrando ar ei gilydd. Dylai pawb gael llais ac mae'n bwysig cofio nad oes cwestiynau dwl. Amlinellodd DR rôl y Bwrdd o ran craffu, cefnogi a herio. Pwysleisiodd bwysigrwydd gwaith tîm a gofalu am y Cadeirydd.

Roedd DR yn ymwybodol o bryder y Bwrdd am golli cymaint o aelodau profiadol yn y diweddariad nesaf. Bydd yn ystyried hynny ymhellach ar ôl y cyfarfod gan ei fod yn awyddus i helpu pawb sy'n bresennol i fod yn rhan o Fwrdd sy'n perfformio cystal ag sy'n bosibl.

Mewn ymateb i gwestiwn dilynol gan JG, atebodd DR mai bwriad Byrddau yw adlewyrchu poblogaeth Cymru o ran amrywiaeth ethnig a chymysgedd o ran rhywedd ac mae'n bwysig sicrhau bod pawb yn gallu cymryd rhan. Holodd DN am ffyrdd o ddenu mwy o bobl i fod yn aelodau o'r Bwrdd, yn enwedig pobl iau.

Cytunwyd y byddai'r cyfryngau cymdeithasol yn ddefnyddiol iawn yn hyn o beth a hefyd wrth weithredu fel llysgennad personol i ddenu aelodau newydd.

Roedd SD yn holi sut i sicrhau bod y bylchau cywir yn cael eu llenwi pan fydd aelodau'r Bwrdd yn gadael ac awgrymodd ryw fath o gyfnod trosglwyddo hefyd. Credai DR y byddai hynny'n werthfawr iawn yn ogystal â'r arfer o gyfeillio a gweithredu fel seinfwrdd i aelodau newydd. Dylai pecyn hyfforddi a sefydlu llawn fod ar gael i aelodau newydd hefyd a byddai DR yn hapus i helpu gyda hyn.

Eglurodd MJ ei fod o'r sector preifat ac nad oedd wedi gweithio yn y sector cyhoeddus nac ym maes addysg erioed o'r blaen. Pwysleisiodd MJ pa mor dda y mae'r Bwrdd presennol hwn yn gweithio fel tîm. Roedd MJ yn pryderu y gallai'r adnewyddu nesaf beryglu dynamig tîm llwyddiannus iawn a cholli rhywfaint o'r diwylliant sefydliadol hefyd. Cytunodd DR ynghylch pwysigrwydd parhad a chynnal diwylliant a bydd yn rhoi mwy o ystyriaeth i hyn. Awgrymodd MP y gallai cael Bwrdd mwy leihau'r risg honno o bosibl a lleihau bregusrwydd. Roedd DR yn credu ei bod yn anodd safoni ond roedd wedi gweld bod Byrddau llai yn fwy effeithiol yn ei brofiad ef cyn belled â bod yr ystod lawn o sgiliau yn cael eu hadlewyrchu.

Cyfeiriodd SD at gynlluniau'r Uned Cyrff Cyhoeddus yn y dyfodol wrth recriwtio aelodau cyffredinol o'r Bwrdd a gofynnodd sut y byddai hyn yn gweithio'n ymarferol. Dywedodd DR nad oedd cynlluniau wedi'u cwblhau eto ar y broses newydd hon ond byddai'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd.

Diolchodd SD i DR am ei drosolwg a chytunodd y dylent fod yn ymwybodol o werthoedd gwasanaeth cyhoeddus ym mhopeth a wnânt. Soniodd SD am ba mor dda y mae'r Bwrdd hwn yn gweithio gyda'i gilydd gan groesawu'r cyfle i gyfarfod wyneb yn wyneb bedair gwaith bob blwyddyn. Ystyriwyd ymdrechion craffu'r is-bwyllgor yn ddefnyddiol iawn hefyd wrth sicrhau bod y Bwrdd yn rhedeg yn esmwyth. Roedd SD yn edrych ymlaen at drafodaethau pellach gyda DR ynghylch adnewyddu'r Bwrdd dros y misoedd nesaf.

7. Cyflwyniad Recriwtio a Chadw

Croesawodd SD Dr Chris Lewis (CL) a roddodd gyflwyniad ar recriwtio a chadw uwch arweinwyr yng Nghymru a oedd yn rhan o ffrwd waith Datblygiad Strategol y Gweithlu yn y cynllun corfforaethol.

Amlinellodd CL y canlyniadau tymor byr, canolig a hirdymor fel a ganlyn:

Tymor Byr – casglu data defnyddiol ar recriwtio a chadw i'w dadansoddi a'u cyhoeddi

Tymor Canolig – cynigion strategol i ddod allan o'r sylfaen dystiolaeth

Hirdymor – Gwneud rolau arweinyddiaeth yn ddeniadol fel bod arweinwyr yn cael eu cymell i aros yn eu swyddi.

Casglwyd data meintiol ac ansoddol trwy archwilio barn, agweddau a rhwystrau canfyddedig. Mae hwn wedi bod yn brosiect sylweddol sy'n gofyn am ddyraniad mawr o adnoddau. Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Addysg ac Ymchwil

Cymdeithasol wedi bod yn cyflawni'r gwaith hwn ac wedi cynnwys arbenigedd Cymraeg yn eu tîm. Y prif ffocws fu agwedd a phrofiad arweinwyr presennol. Cynhaliwyd cyfweiliadau a chynhaliwyd grwpiau ffocws gydag uwch arweinwyr y dyfodol. Mae adroddiad ar ganfyddiadau wedi'i gynnwys ar y wefan.

Gwnaed dadansoddiad hefyd ar nifer y swyddi gwag o gymharu â nifer yr ymgeiswyr cymwys priodol. Roedd yn destun pryder nodi dirywiad y gweithlu arweinyddiaeth sydd mewn perygl o beidio â chael ei adfywio fel yr adlewyrchir mewn cyfraddau trosiant. Mae hon yn broblem benodol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion ffydd, yn enwedig ar lefel uwchradd.

Rhannodd CL adborth cadarnhaol a negyddol o fod yn uwch arweinydd ym maes addysg yng Nghymru. Roedd y pethau cadarnhaol yn cynnwys y cyfle i wneud gwahaniaeth, ymfalchïo mewn gwelliant a chyflawniad, angerdd dros yr arbenigedd a ddewiswyd a'r cyfle i ddylanwadu ar bolisi. Agweddau negyddol oedd y llwyth gwaith uchel a'r cydbwysedd gwael rhwng bywyd a gwaith, ymdeimlad o unigedd yn y rôl arwain, gormod o fiwrocraatiaeth a gwaith gweinyddol, cyllid cyfyngedig, effaith negyddol ar iechyd a lles, hyfforddiant a datblygiad annigonol, ansicrwydd ynghylch ymddeol a phensiynau. Roedd yr un olaf yn syndod braidd ond credwyd ei fod yn dyddio'n ôl i'r adeg pan gynigiwyd yr opsiwn i athrawon wneud newidiadau i ddarpariaeth pensiwn os oeddent yn dymuno hynny.

Mae cyllid ysgolion wedi codi fel y prif fater bellach i uwch arweinwyr. Roedd hyn yn cynnwys cyflogau hefyd a gwnaeth CL sylwadau ar y gwahaniaeth bach weithiau rhwng cyflogau Penaethiaid a Dirprwyon, o ystyried cyfrifoldebau ychwanegol sylweddol Penaethiaid.

Cafodd digwyddiad i lansio'r papur ei gynnal ym mis Mawrth gyda chyflwyniadau gan y tîm ymchwil a phenaethiaid. Cafodd hyn adborth cadarnhaol iawn ac fe'i dilynwyd gyda chyfarfodydd gyda Dirprwy Gyfarwyddwyr perthnasol yn LIC. Rhoddodd TE gyflwyniad ar ganfyddiadau yng nghynhadledd Belmas ychydig wythnosau'n ôl.

Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd gyda Kevin Palmer a chaiff cynllun gweithredu ei gytuno ar y cyd â LIC i fynd i'r afael â rhai o'r pethau yn yr adroddiad. Bydd cefnogaeth i ysgolion cyfrwng Cymraeg ar frig y cynllun gweithredu hwn.

Roedd SD wedi gweld yr ymchwil hon yn ddiddorol iawn ac yn gwerthfawrogi bod cyllid yn ymddangos yn fater pwysig o fewn system a oedd yn teimlo cryn straen. Soniodd PM am sut y gall gweithredoedd cyrff llywodraethu gefnogi ysgolion ond roedd yn cydnabod yr anghysondeb yn gyffredinol. Roedd PM yn argymhell mwy o hyfforddiant i gyrff llywodraethu. Cytunodd MP nad yw llywodraethwyr newydd yn gwerthfawrogi cyfrifoldeb y rôl y maent wedi ymgymryd â hi yn aml. Cytunodd CL fod darn o waith i'w wneud yma a soniodd am y set sgiliau sydd ei hangen yn arbennig ar gyfer rôl Cadeirydd y Llywodraethwyr.

Pwysleisiodd JG bwysigrwydd adeiladu a chynnal perthynas dda â Chadeirydd y Llywodraethwyr. Disgrifiodd JG addysg fel maes unigryw hefyd o ran peidio â dod ag unrhyw un o'r tu allan i swyddi uwch arweinyddiaeth. Roedd JG yn pryderu mai ychydig iawn o Benaethiaid sydd yng Nghymru sydd dros 60 oed sy'n arwain at golli cymaint o brofiad a gwybodaeth. Yn Awstralia mae Penaethiaid sydd wedi ymddeol

yn darparu cymorth mentora systematig ar gyfer Penaethiaid newydd eu penodi sy'n ymddangos fel pe bai'n gweithio'n dda iawn.

Adroddodd CL fod ystyriaeth wedi ei rhoi i ddod ag uwch arweinwyr o AB i mewn i'r sector ysgolion ond mae yna wrthwynebiad i recriwtio arweinwyr o'r tu allan i fyd addysg. Gallai ymagwedd strategol tuag at bennaeth gweithredol gefnogi'r system. Mae llwybrau llwybr cyflym at arweinyddiaeth yn cael eu hystyried gan y gwerthfawrogwyd y gellid adnabod darpar arweinwyr yn gynharach. Dywedodd MP fod ysgolion ffydd wedi bod yn archwilio'r opsiwn hwn eisoes.

Diolchodd SD i CL am gyflwyniad diddorol iawn a oedd wedi sbarduno trafodaethau defnyddiol.

8. Diweddariad y Cadeirydd

Atgoffodd SD y Bwrdd bod eu rôl yn strategol yn hytrach na gweithredol a'i fod yn cynnwys cynghori, herio a chefnogi'r sefydliad. Pwysleisiodd SD hefyd nad oedd pob penodiad Bwrdd yn cael ei adnewyddu'n awtomatig.

Roedd SD yn pryderu am golli cymaint o arbenigedd o bosibl wrth i'r Bwrdd gael ei adnewyddu y tro nesaf ac atgoffodd y Cyfarwyddwyr y gallent wneud cais i gael eu cynnwys ym Mwrdd generig yr Uned Cyrff Cyhoeddus, hyd yn oed os oeddent yn aelodau o'r bwrdd presennol.

Cyfeiriodd SD at Delerau ac Amodau Aelodaeth o'r Bwrdd hefyd a oedd yn cynghori ymrwymiad amser o ddiwrnod y mis. Pwysleisiodd SD bwysigrwydd mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd. Gellir terfynu apwyntiadau os bydd presenoldeb mewn cyfarfodydd yn annibynadwy er y derbyniwyd y gall argyfyngau godi.

Cytunwyd y gellid penderfynu ar y cwestiwn cynharach ynghylch cylchdro cadeiryddion is-bwyllgorau yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol ym mis Tachwedd er y gallai'r pwyllgorau drafod dewisiadau yn eu cyfarfodydd ym mis Hydref. Gofynnwyd i gyfarwyddwyr anfon unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar gyfer cadeirio is-bwyllgorau at SD.

9. Diweddariad Lles

Rhoddodd JG, fel cyfarwyddwr arweiniol llesiant, gyfle i staff gael trafodaeth gyfrinachol yn flynyddol.

Mae JG wedi cwblhau'r ymarfer hwn yn ddiweddar gan bwysleisio wrth staff nad ymarfer blynnyddol yn unig oedd hwn ac y gallent siarad ag ef ar unrhyw adeg. Roedd trafodaethau eleni yn dangos darlun cadarnhaol iawn o weithio yn yr Academi Arweinyddiaeth gydag adborth yn dangos bod staff yn hoffi'r hyblygrwydd, yn teimlo bod cyfarfodydd tîm yn ddefnyddiol ac yn hoffi'r cysylltiad rhwng polisi ac ymarfer. Nodwyd y byddai'r staff yn croesawu mwy o eglurhad ar gyfeiriad hirdymor y sefydliad yn y dyfodol hefyd ac y byddent yn hoffi dod i adnabod y Bwrdd yn well

hefyd. Roedd y staff yn ymwybodol y bydd aelodau'r Bwrdd yn newid ac yn bryderus braidd nad yw aelodau newydd yn gyfarwydd â gwerthoedd y sefydliad o reidrwydd.

Roedd JG yn teimlo bod staff yn frwdfrydig ac yn fedrus iawn ac yn gadarnhaol iawn am eu rôl yn y sefydliad. Roedd KP wedi manteisio ar y cyfle i siarad â JG fel hyn a diolchodd i JG am greu'r cyfle i gael y gofod cyfrinachol hwn i staff. Roedd MJ hefyd yn credu ei bod yn fenter wych i aelod o'r Bwrdd ymgymryd â'r rôl hon o siarad â staff.

Diolchodd SD i JG am gyflawni'r rôl hon a dywedodd hefyd ei bod yn adlewyrchiad da iawn o arweinyddiaeth TE o fod wedi creu amgylchedd gwaith mor gadarnhaol i staff.

10. Dyddiad y cyfarfod nesaf, eitemau agenda yn y dyfodol a chau

Bydd cyfarfod nesaf y Bwrdd yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb ddydd Iau 7 Tachwedd yng ngwesty'r Grand yn Abertawe. Bydd hyn yn cael ei ragflaenu gan y CCB.

Diolchodd SR i bawb am gymryd rhan yn y cyfarfod heddiw a chaeodd y cyfarfod am 2.30pm.

Log Gweithredu

Rhif		Perchennog	Dyddiad cau	Statws
241	Adrodd yn ôl i Mark Isherwood ar awgrym MJ i oedi cymeradwyo	TE	Gorffennaf 2024	Wedi'i gwblhau
242	Penderfynu ar gylchdroi cadeiryddion ac anfon unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb mewn dod yn gadeirydd at SD	Pawb	Tachwedd 2024	Wedi'i gwblhau